Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Ardudwy

**Dyffryn Ardudwy**
**Gwynedd**
**LL44 2EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Ardudwy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dyffryn Ardudwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 83 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 69 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 14.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 23.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Medi 2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Dyffryn Ardudwy yn ysgol hapus a chroesawgar sy’n blaenoriaethu lles disgyblion a staff yn dda. Mae naws gynhwysol yr ysgol yn cefnogi bron bob disgybl i ymddwyn yn arbennig o dda ac i ddangos parch a gofal am eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o’u hysgol ac yn ymroi’n llawn i brofiadau dysgu a chwarae. Mae ganddynt wir ddiddordeb yn eu dysgu, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Er hyn, prin yw’r cyfleoedd iddynt arwain eu dysgu’u hunain yn gwbl annibynnol.

Ers ei phenodiad yn lled ddiweddar, mae’r pennaeth wedi adeiladu ar yr ethos tîm sy’n bodoli ar draws yr ysgol. Mae hi wedi mynd ati’n egnïol i wella ansawdd yr amgylchedd dysgu a’r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu buddiol, gan gynnwys cystadlu mewn cystadlaethau amrywiol a chydweithio ag arbenigwyr prosiect digidol difyr. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso’r ysgol yn ddigon miniog i ddylanwadu’n ddigon effeithiol ar y dysgu a’r addysgu.

Mae gan y staff berthynas waith effeithiol â’r disgyblion ac maent yn cefnogi eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae’r staff yn holi ac yn cefnogi’r disgyblion i ddwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn fuddiol. Er hyn, mae athrawon yn dueddol i or-gyfarwyddo’r dysgu sy’n llesteirio gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Yn ogystal, nid yw’r profiadau dysgu yn cynnig digon o her a chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a’u medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

## Argymhellion

A1 Gwella’r addysgu er mwyn herio’r disgyblion yn effeithiol a datblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu ac addysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sy'n debyg i'r hyn a ddisgwylir am eu cam datblygiad, heblaw am fedrau llafar Cymraeg y mwyafrif sy'n is na'r hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd priodol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn bwrpasol gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn eu chwarae a'u dysgu. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd yn ofalus wrth gydweithio ac yn sgwrsio'n naturiol ac yn hyderus wrth drafod eu profiadau dysgu, er enghraifft wrth bwyso pridd a phlannu hadau yn yr ardal ymchwiliol. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae bron bob un yn gwrando ar farn a syniadau ei gilydd yn aeddfed gan ymateb yn hyderus i gwestiynau'r athrawon.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn gadarn gan ddechrau adnabod ffurf a sain llythrennau'n gynyddol hyderus. Maent yn defnyddio dulliau ffoneg yn briodol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r lleiafrif yn darllen testun yn ddeallus. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u mwynhau. Maent yn awyddus i rannu eu barn ac yn dangos dealltwriaeth briodol mewn amrywiaeth dda o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda rhuglder a hyder cynyddol gan amrywio goslef eu llais yn effeithiol. Er hyn, mae ychydig o'r disgyblion hynaf yn ansicr ar brydiau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus drwy arbrofi a chreu marciau gyda sialc a phaent. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori greadigol am deganau. Pan gânt y cyfle, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau. Er enghraifft, maent yn ymateb i daith gerdded i hen adfeilion drwy ysgrifennu'n ddychmygus am bwy oedd yn byw yno. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn ddigon cadarn bob tro nac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, nid ydynt yn defnyddio ystod o eirfa gyfoethog ac atalnodi aeddfed er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn deall gwerth rhif ac yn defnyddio unedau safonol ac ansafonol yn bwrpasol wrth greu graddfeydd, er enghraifft wrth fesur hyd gwrthrychau yn y parc chwarae. Er bod y disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu dealltwriaeth fathemategol yn llwyddiannus, nid ydynt yn cymhwyso nac yn ymestyn eu medrau rhifedd yn ddigon bwriadus ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn tynnu ffotograff o'u gwaith ac yn ei arbed yn hyderus. Mae  disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth restru cyfarwyddiadau ar sut i wneud cacen nyth ar gyfer disgyblion y

dosbarth derbyn. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio ystod eang o feddalwedd yn bwrpasol i ddatblygu eu gwaith. Maent yn rhannu eu gwaith ac yn cydweithio'n fedrus ar blatfform ar-lein i olygu a chyflwyno eu gwaith, er enghraifft wrth ymchwilio i nodweddion Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn creu gwefan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau corfforol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuangaf yn datblygu eu medrau'n gadarn, er enghraifft wrth ddefnyddio gwahanol feiciau'n hyderus. Mae bron bob un o'r disgyblion hynaf yn ymgymryd yn frwd â gweithgareddau corfforol fel gwersi pêl-droed, gymnasteg a dawns.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o gymuned yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff. Ar draws yr ysgol, mae'r nodwedd o barch yn amlygu ei hun o fewn natur gynhwysol yr ysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda, ac yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd ag eraill. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn gofalu am y rhai ieuengaf yn ystod amser cinio gan ddangos esiampl dda o ran ymddygiad a pharch at eraill. Yn ogystal, maent yn dangos empathi tuag at eraill yn y byd ehangach ac yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft wrth gefnogi ymgyrch i gasglu arian tuag at drychineb daeargryn Syria a Thwrci.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol bod staff ar gael er mwyn derbyn cyngor neu gynhaliaeth mewn achos o bryder. Maent yn deall bod lles emosiynol yn bwysig ac yn cymryd rhan weithredol a deallus mewn gweithgareddau amser cylch rheolaidd. Mae'r ethos gofalgar yn cyfrannu'n dda at gefnogi lles disgyblion ac mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drafod pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach gan ddeall pwysigrwydd effaith ymarfer corff arnynt. Er enghraifft, mae'r tîm pêl-droed wedi cystadlu mewn twrnamaint yn ddiweddar ac mae'r disgyblion hŷn yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wydnwch a ffitrwydd y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod falch o'u hysgol. Mae aelodau'r cynghorau ysgol yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn dechrau cyfrannu'n werthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, trefnwyd siop cyfnewid dillad ysgol gan y pwyllgor eco yn ogystal â llythyru rhieni i ofyn am gefnogaeth i glirio'r ardd. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd eu cyfraniad i fywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae grwpiau eraill yn gweithredu'n uniongyrchol at gefnogi lles a diogelwch y disgyblion. Er enghraifft, mae swyddogion diogelwch y ffordd yn monitro diogelwch o gwmpas yr ysgol tra bod y 'Bydis Buarth' yn annog disgyblion i gyd-chwarae'n synhwyrol ar y buarth.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus ac yn cymryd gwir ddiddordeb yn eu gwaith. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion, gan ymateb yn aeddfed a synhwyrol mewn trafodaethau grŵp. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gymryd rhan mewn profiadau dysgu ac i gyd-chwarae'n synhwyrol. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol i arweiniad athrawon a chymorthyddion i gyflawni tasgau. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn arwain eu dysgu'u hunain yn gynyddol annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i holi ac adborth llafar athrawon yn ystod gwersi, gan ddechrau datblygu dealltwriaeth addas o sut i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd balchder yng nghyflwyniad eu gwaith.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol yn llwyddiannus. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn grefftus sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at eu dysgu. Mae'r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi'r disgyblion. Maent yn cyfathrebu â'r disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg cywir, sydd yn ei dro yn cyfoethogi iaith y disgyblion yn effeithiol.

Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau a mewnbwn athrawon yn sbarduno disgyblion i ddysgu'n frwdfrydig. Maent yn atgoffa disgyblion am ddysgu blaenorol ac yn gwneud cysylltiadau effeithiol â'u gwaith. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn eu paratoi i weithio'n annibynnol ar dasgau. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o dechnegau holi gan annog disgyblion i feddwl yn ddwys ac i ystyried eu hymatebion. Yn gyffredinol, mae'r staff yn ymyrryd yn briodol er mwyn symud y dysgu ymlaen gydag unigolion a grwpiau. Er bod gan staff wybodaeth briodol am allu ac anghenion y disgyblion, nid ydynt yn olrhain eu cynnydd yn ddigon effeithiol er mwyn darparu gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn ddigon bwriadus.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn dechrau rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau esbonio sut mae eu syniadau'n cyfrannu at ddysgu yn y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, er enghraifft wrth awgrymu yr hoffent fynd am dro er mwyn dysgu mwy am yr ardal leol. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae'r disgyblion yn dewis sut i gyflwyno eu gwaith, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu profiadau dysgu sy'n hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion ac i gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Yn ogystal, mae athrawon yn tueddu i or-gyfarwyddo'r dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i arwain dysgu eu hunain. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a'u cyfoedion yn datblygu'n briodol. O ganlyniad, maent yn dechrau adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r staff wedi gwneud cynnydd priodol tuag at sefydlu egwyddorion a chynnwys y Cwricwlwm i Gymru. Maent wedi cydweithio â'r disgyblion, rhieni, gofalwyr a'r llywodraethwyr i lunio gweledigaeth sy'n adlewyrchu'r pedwar diben yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth o egwyddorion ehangach y cwricwlwm wrth ymdrechu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac i ddyfalbarhau'n llwyddiannus yn eu gweithgareddau, er enghraifft. Ar draws yr ysgol, mae'r amgylchedd dysgu'n groesawgar, deniadol ac ysgogol. Er enghraifft, mae'r 'siop flodau' yn nosbarth y dysgu sylfaen yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar. Er hyn, nid yw staff yn darparu gweithgareddau dysgu yn yr ardaloedd allanol i gyfoethogi'r dysgu ar draws yr ysgol yn ddigon effeithiol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n rhoi ystod briodol o brofiadau i'r disgyblion. Maent yn cynllunio profiadau sy'n dathlu'r ardal leol yn fedrus gan ddefnyddio

ymwelwyr a chysylltiadau arbenigol allanol ar gyfer prosiectau arbennig. Er enghraifft, mae'r disyglbion wedi cydweithio ar brosiect creadigol 'Ein Bro' i greu animeiddiad amlgyfrwng safonol am adfeilion yn yr ardal leol.

Mae'r profiadau cwricwlaidd yn hybu dealltwriaeth disgyblion o les a chadw'n heini yn briodol. Mae athrawon yn darparu sesiynau addysg gorfforol rheolaidd mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel gymnasteg, nofio a chwaraeon. Yn ogystal, mae cyfle i ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus sy'n cynnwys dringo, padlfyrddio a chanŵio er mwyn datblygu medrau gwydnwch a hunanhyder y disgyblion.

Yn gyffredinol, nid yw staff yn cynllunio gweithgareddau'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu medrau rhifedd ac ysgrifennu'r disgyblion. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau digon o gyfleoedd i'r disgyblion hŷn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn estynedig i fireinio a gwella eu gwaith. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemategol ac ysgrifennu yn adeiladol mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gael mynediad at dechnoleg o safon uchel. O ganlyniad, mae eu hyder i greu a chyflwyno gwaith mewn amrywiaeth o blatfformau digidol ar draws y cwricwlwm yn gryfder. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn creu cyflwyniadau digidol diddorol am gestyll Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth amlwg yn yr ysgol ac mae trefniadau effeithiol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob un disgybl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae staff yn darparu sesiynau amser cylch gwerthfawr sydd wedi eu sefydlu'n gadarn i gynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion drafod eu teimladau. Mae gan yr holl staff berthynas waith dda â'r disgyblion sy'n sicrhau eu bod yn teimlo'n hollol gartrefol yn eu hamgylchedd dysgu. Yn ogystal, mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i gydweithio ag asiantaethau allanol i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion o sut i ofalu am eu lles eu hunain ac i gadw'n ddiogel, er enghraifft trwy dderbyn cefnogaeth gan swyddog cyswllt yr heddlu. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn nodwedd gref o'r ysgol ac mae'r parch tuag at ei gilydd yn amlwg.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ceir cydweithio effeithiol rhwng y cydlynydd ADY ychwanegol a'r cymorthyddion a'r rhieni. Mae'r disgyblion yn ganolog i'r broses ar gyfer gosod targedau yn eu cynlluniau unigol ac mae rhieni'n rhan annatod o'r trafodaethau. Mae'r cydlynydd yn olrhain cynnydd disgyblion penodol yn effeithiol ac yn addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n fedrus ag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau er mwyn derbyn arweiniad a chyngor arbenigol i gefnogi'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â gwerthoedd, diwylliant, amrywiaeth a chynhwysiant. Caiff hyn ei weld yn amlwg yn y parch, y gofal a'r gefnogaeth mae'r disgyblion yn eu harddangos at ei gilydd. Er enghraifft, un o brif flaenoriaethau'r cyngor ysgol yw sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn hygyrch i bawb. Yn ogystal, mae'r ysgol darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion ddarganfod mwy am eu treftadaeth, eu hunaniaeth a'u diwylliant. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn dysgu am swyddogaeth Cadw wrth ofalu am Gastell Harlech fel rhan o'u thema 'Gofalu'.

Yn ddiweddar, mae disgyblion yn elwa o brofiadau dysgu ehangach sy'n cael eu trefnu er mwyn cyfoethogi gwaith y dosbarth, er enghraifft trwy wahodd milfeddyg lleol i ymweld â'r ysgol i siarad am sut i ofalu am anifeiliaid. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu'n dda ac yn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu am eu cynefin a'r byd ehangach yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio yng ngwasanaeth yr ysgol ac maent yn cael cyfle i berfformio o flaen cynulleidfaoedd yn y gymuned yn achlysurol. Drwy brosiectau a'r defnydd o staff arbenigol, anogir y disgyblion i ddefnyddio eu dychymyg ac i ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol. Er enghraifft, mae'r plant hynaf wedi ymgymryd â phrosiect creadigol ynglŷn ag adfeilion cyfagos, ac mae'r holl ddisgyblion wedi cymryd rhan yn eisteddfod yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, gyda'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau perthnasol yn rheolaidd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod lles disgyblion a staff yn flaenoriaeth yn yr ysgol hon. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu medrau a dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach trwy ymgymryd ag ystod o brofiadau dysgu buddiol. Mewn amser byr, mae'r pennaeth wedi creu ymdeimlad o dîm ymysg y staff ar draws yr ysgol sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys annog athrawon i gymryd cyfrifoldeb am elfennau pwysig o waith yr ysgol, er enghraifft trwy arwain staff ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY.

Yn gyffredinol, mae aelodau'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn gwneud defnydd priodol o arbenigeddau'r aelodau er mwyn cefnogi'r ysgol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda'r cydlynydd ADY i drafod y ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae aelodau'r corff llywodraethol wedi ymweld â'r ysgol i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r staff a'r disgyblion am elfennau o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cefnogi eu dealltwriaeth o faterion addysgu a dysgu a threfniadau cyfredol yr ysgol yn briodol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth a'r staff wedi ymgymryd ag ychydig iawn o weithgareddau monitro hyd yn hyn, er enghraifft craffu ar lyfrau disgyblion a chanfod barn disgyblion a rhieni am y ddarpariaeth a gwaith yr ysgol. Er eu bod yn adnabod ychydig o gryfderau a meysydd i'w gwella, nid yw'r gweithgareddau monitro'n canolbwyntio'n ddigonol ar werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu o ran ei effaith ar gyflawniad

disgyblion. O ganlyniad, cyfyng yw effaith y prosesau monitro ar y dysgu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn adnabod blaenoriaethau addas sy'n dechrau cael effaith briodol ar y ddarpariaeth, a safonau a lles disgyblion, er enghraifft trwy wella medrau darllen disgyblion a chysoni dulliau asesu ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus ac yn dyrannu gwariant yn briodol.

Mae'r pennaeth yn annog staff i ymgymryd ag ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol a gofynion unigolion yn briodol. Er enghraifft, mae athrawon a chymorthyddion wedi mynychu hyfforddiant priodol i ddatblygu medrau darllen disgyblion a chyfoethogi'r ardaloedd dysgu. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n agos ag arweinwyr a staff ysgolion yr ardal er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ofynion y Cwricwlwm i Gymru trwy gyd-gynllunio cyfres o brofiadau dysgu ar themâu penodol. Maent hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd buddiol i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn arsylwi ar arfer dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymateb yn dda i wella medrau a dealltwriaeth staff ac yn dechrau cael effaith ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023